

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)	STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)
DYDD MAWRTH, 23 CHWEFOR 2016 am 2.00 o'r gloch y prynhawn	TUESDAY, 23 FEBRUARY, 2016 at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU/MEMBERS:

Cynghorwyr / Councillors:-

W. T. Hughes, Gwilym O. Jones, R. Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees
(Cadeirydd /Chair), Alwyn Rowlands

Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations

Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents)

Athrawon/Teachers

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)

Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members

Y Parch./Rev. Elwyn Jones (Cyngor yr Ysgolion Sul/Sunday Schools Council)

R H A G L E N

1 **CYFLWYNIAD**

Derbyn cyflwyniad gan Ysgol y Borth ar waith y Cyfnod Sylfaen.

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION CYFARFOD 6 HYDREF, 2015** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2015.

4 **MATERION YN CODI - GOHEBIAETH** (Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno er gwybodaeth ohebiaeth anfonwyd at Aelod Cynulliad Ynys Môn ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Grefyddol.

5 **AROLYGIADAU ESTYN**

Cyflwyno gwybodaeth am arolygiadau Estyn a gynhaliwyd mewn perthynas ag Ysgol Llannerchymedd, Ysgol y Borth, Ysgol Rhosneigr, Ysgol Garreglefn ac Ysgol Llandegfan. *(Gwybodaeth i'w chyflwyno yn y cyfarfod)*

6 **HUNAN-ARFARNIADAU YSGOL - YSGOL PENYSARN** (Tudalennau 13 - 38)

Cyflwyno adroddiadau hunan arfarnu AG gan yr ysgolion canlynol -

Ysgol Penysarn,
Ysgol Talwrn,
Ysgol y Graig
Canolfan Addysg y Bont
Ysgol Amlwch
Ysgol y Ffridd

7 **CANLYNIADAU ADDYSG GREFYDDOL 2015** (Tudalennau 39 - 42)

Ymgynghorydd Her GwE i adrodd.

8 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU - COFNODION CYFARFOD 25 TACHWEDD** (Tudalennau 43 - 54)

- Cyflwyno cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Nglyn Ebwy ar 25 Tachwedd, 2015. *(Fersiwn Saesneg)*
- Cyflwyno adroddiad y Trysorydd am 2014/15.
- Cyflwyno gohebiaeth anfonwyd ar ran CYSAG Ynys Môn at Brif Weithredwr CBAC mewn perthynas â TGAU Astudiaethau Crefyddol. *(Eitem 8 ar gofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru)*

9

CYFARFOD NESAF

Dydd Mawrth, 14 Mehefin, 2016 am 2:00 o'r gloch y prynhawn.

This page is intentionally left blank

YNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2015

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)

Yr Awdurdod Addysg

Y Cynghorydd G.O. Jones

Yr Enwadau Crefyddol

Mr Rheinallt Thomas (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) (Is-gadeirydd)
Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig)
Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)
Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd)

Athrawon

Mrs Alison Jones (Ysgol Parch. Thomas Ellis)
Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones)
Mrs Heledd Hearn (Ysgol Bodedern)

WRTH LAW: Mr D. Gareth Jones (Swyddog Addysg Gynradd) (Clerc i'r CYSAG)
Shirley Cooke (Cynorthwy-ydd Gweinyddol/Swyddog Pwyllgor)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Alun Mummery, Alwyn Rowlands, Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo), Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru).

HEFYD YN BRESENNOL: Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her GwE)

1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD AR 9 MEHEFIN, 2015

Cyflwynwyd cofnodion blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar gynnwys enw Stephen Francis Roe yn y rhestr o bobl a oedd yn bresennol.

3 MATERION YN CODI

4. Ymweliadau Addoli ar y Cyd

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y pwyntiau gweithredu a ganlyn:-

- **Yr Ymgynghorydd Her GwE i gylchredeg y pro-fforma i gofnodi addoli ar y cyd i aelodau'r CYSAG.**

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE er nad oedd yr holl Aelodau wedi derbyn copi o'r pro-fforma, ei fod wedi cael ei ddilysu a'i fod wedi'i gynnwys fel eitem ar yr agenda.

- **Y Swyddog Addysg Gynradd i wneud ysgolion yn ymwybodol trwy'r grwpiau strategol cynradd ac uwchradd o bwmpas y pro-fforma a sut y caiff ei ddefnyddio**

Adroddodd y Swyddog Addysg Gynradd fod y Grŵp Strategol Cynradd yn cefnogi defnyddio'r pro-fforma. Dywedodd y byddai'n mynd ar ôl barn y sector uwchradd gyda'r Swyddog Addysg Uwchradd.

Awgrymodd yr Ymgynghorydd Her GwE y dylid treialu'r pro-fforma am gyfnod o flwyddyn i weld a ellid dod i gonsensws, gan gyflwyno adroddiad yn seiliedig ar ddefnydd cyffredin o'r ffurflen ymysg yr Aelodau. Erbyn diwedd y flwyddyn, bydd unrhyw wendidau yn y pro-fforma wedi dod i'r amlwg ac mae angen i'r CYSAG fod yn agored i ddiwygio'r pro-fforma yn unol â hynny.

Cytunwyd i dreialu'r pro-fforma ar gyfer cofnodi ymweliadau addoli ar y cyd am gyfnod o flwyddyn.

Cam Gweithredu:

- **Yr Ymgynghorydd Her GwE i gylchredeg y pro-fforma i gofnodi ymweliadau addoli ar y cyd i aelodau'r CYSAG.**

7. Deunyddiau Enghreifftiol i Ddatblygu Llythrennedd a Rhifedd yn AG CA3

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Her GwE at y cyflwyniad a roddodd yn y cyfarfod diwethaf ar ddeunyddiau a ddatblygwyd gan Mrs Mary Parry, Ymgynghorydd AG yng Nghaerfyrddin, a gofynnodd am gadarnhad fod yr holl ysgolion uwchradd ar Ynys Môn wedi derbyn copi o'r modiwl ar CD

Dywedodd Mrs Mefys Edwards nad oedd hi wedi gwneud defnydd o'r CD hyd yma ond ei bod yn bwriadu ei dreialu gyda disgyblion Blwyddyn 8 a'i addasu i'w rhaglen waith.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Swyddog Addysg Gynradd wedi ysgrifennu llythyr o ddiolch at Mrs Mary Parry.

4 AROLYGIADAU ESTYN

- Cyflwynwyd gwybodaeth berthnasol ynglŷn â'r arolygiadau Estyn a wnaed yn Ysgol Gymraeg Morswyn ac Ysgol Bodffordd i'r CYSAG ei hystyried. Nodwyd y wybodaeth.
- Cyflwynwyd yr adroddiad Adran 50 ynghylch Ysgol Llangaffo i'r CYSAG ei ystyried.

Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y defnydd o'r term 'cydaddoli' ('*corporate worship*' yn Saesneg) yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad Adran 50 tra bod y fersiwn Saesneg yn cyfeirio at '*collective worship*' a cheisiodd eglurhad ar yr anghysondeb rhwng y ddwy fersiwn. Dywedodd o bosib gan fod Ysgol Llangaffo yn ysgol Eglwys yng Nghymru, y medrai fod yn 'gydaddoli' yn gyfreithiol. Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw at y ffaith fod y defnydd cywir o'r derminoleg wedi bod yn broblem am flynyddoedd. Cynigiodd dynnu sylw Esgobaeth

Bangor at y gwall hwn a'u bod yn gofyn i'r Esgobaeth ddefnyddio'r term cywir am 'collective worship' yn y Gymraeg h.y. 'addoli ar y cyd', o fewn yr adroddiad i gyd-fynd â'r defnydd o'r term 'collective worship' yn fersiwn Saesneg yr adroddiad. Cytunodd y CYSAG, a bu iddo gydnabod hefyd bod yr adroddiad yn gynhwysfawr ac yn llawn gwybodaeth ac yn brawf o lwyddiannau Ysgol Llangaffo.

Cyfeiriodd Mr Christopher Thomas at y ffaith fod yr adroddiad yn dweud "*The school meets the statutory requirement for collective acts of worship*". O ystyried bod natur yr adroddiad yn sôn am fod yn "ysbrydoledig" wrth gyfeirio at addoli ar y cyd mae'n bechod iddo dderbyn sylw mor 'mater o ffaith' â'r un a ddyfynnwyd. Dywedodd fod yr adroddiad yn darllen yn dda iawn ac y dylid ei longyfarch ar y cyfan.

Dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd efallai ei fod yn adlewyrchu'r derminoleg arolygu safonol a ddefnyddir i ddisgrifio nodweddion o'r fath.

Cytunodd y Cadeirydd ei fod yn adroddiad cadarnhaol ac awgrymodd bod y llythyr at Esgobaeth Bangor hefyd yn cydnabod bod yr adroddiad yn cyfeirio at y ffaith fod yr addoli ar y cyd yn ysbrydoledig. Cytunodd y CYSAG i hyn.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Her GwE at y darnau o adroddiadau arolygu ESTYN y mae'r Swyddog Addysg Gynradd yn eu paratoi ar gyfer y CYSAG a dywedodd y rhoddir sylw arbennig i gyfeiriadau yn yr adroddiadau at addoli ar y cyd ac Addysg Grefyddol. Dywedodd ei bod hefyd wedi gofyn i'r Swyddog wirio'r adroddiadau ar gyfer yr adran ar bartneriaethau lleol, a phan geir cyfeiriad at gapel neu eglwys, y dylai hynny hefyd gael ei amlygu fel rhan o sgriwtini'r CYSAG ar yr adroddiadau hynny. Byddai hynny'n galluogi cynrychiolwyr o'r Enwadau Crefyddol ar y CYSAG i adrodd yn ôl i'w grŵp fod ysgolion yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau hynny a medru gweithio gyda'i gilydd efo cymunedau crefyddol lleol.

Cytunwyd i nodi'r adroddiad Adran 50 ar Ysgol Llangaffo.

Cam Gweithredu:

Y Swyddog Addysg Gynradd i ysgrifennu ar ran y CYSAG at Esgobaeth Bangor:

- I gydnabod yr adroddiad a llwyddiant Ysgol Llangaffo yn enwedig o ran ei harferion gydag addoli ar y cyd sy'n cael ei ddisgrifio fel 'ysbrydoledig'.
- Tynnu sylw at y gwall yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad arolygu o ran ei ddefnydd o'r term 'cyd-addoli'.

5 HUNAN-ARFARNIADAU YSGOLION

Cyflwynwyd yr adroddiadau hunanarfarnu Addysg Grefyddol a baratowyd gan Ysgol Bryngwran, Ysgol y Fali, Ysgol Rhosybol ac Ysgol Llanfechell i'r CYSAG eu hystyried.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Her GwE at yr adroddiad gan Ysgol Rhosybol sef drafft cyntaf a oedd wedi'i gyflwyno mewn camgymeriad. Roedd wedi gofyn i'r Pennaeth gyflwyno'r ail ddrafft i'r CYSAG erbyn ei gyfarfod nesaf ac felly awgrymodd y dylent anwybyddu'r adroddiad oedd o'u blaenau.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Her GwE gyngor i'r CYSAG ynghylch yr hyn y dylai fod yn ymwybodol ohono wrth asesu ansawdd yr hunanarfarniadau. Dywedodd bod angen i'r rhan gyntaf sy'n sôn am ba mor dda yw'r deilliannau roi tystiolaeth o'r hyn y gall y plant ei wneud mewn Addysg Grefyddol e.e. cyfeirio at y ffaith fod y mwyafrif o'r disgyblion yn medru

cymharu arferion crefyddol yn eithriadol o dda, yn dda, yn ddigonol neu'n anfoddhaol. Nododd ymhellach y dylai'r CYSAG edrych ar ba sgiliau sydd gan y plant; faint o'r plant fedr ddefnyddio'r sgiliau hynny, ac ansawdd y sgiliau hynny. Mae tueddiad weithiau mewn adroddiadau hunanarfarnu i ysgolion ddrysu rhwng yr hyn mae'r athrawon yn ei baratoi a'r profiadau a gaiff y plant gyda'r safonau a welir yn llyfrau ysgol y plant.

Mae ail ran yr adroddiad hunanarfarnu yn cyfeirio at y ddarpariaeth ac yn ddelfrydol bydd ysgolion yn darparu gwybodaeth am natur y gwersi a'r math o waith a wnaed mewn gwersi Addysg Grefyddol e.e. pa straeon Addysg Grefyddol mae'r plant yn eu hastudio, a gaiff siaradwyr gwadd eu gwahodd i'r ysgolion ac ati. Dywedodd yr Ymgynghorydd bod lle i wella adroddiadau hunanarfarnu ymhellach yn enwedig er mwyn gwneud yr agweddau ansoddol yn fwy cadarn. Awgrymodd ar gyfer cyfarfod y CYSAG yn y gwanwyn, bod y Swyddog Addysg Gynradd yn cynnig ei bod hi ar gael i'r ysgolion am gyfnod yn y bore, yn y prynhawn ac ar ôl ysgol fel bod modd i unrhyw un sy'n dymuno cael ei chyngor wneud hynny. Cynghorodd y CYSAG, wrth iddo sgrwtineiddio'r adroddiadau, y dylai chwilio am y termau hynny sy'n darparu barn ansoddol e.e. da, digonol, yn gwella, cryf ac ati.

Holodd Mr Christopher Thomas a oedd enghraifft o'r ddogfen hunanarfarnu ar gael i'r holl ysgolion.

Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod dogfen enghreifftiol ar gael ond petai'r ysgolion yn cadw'n rhy agos at y fformat penodol hwnnw gall adroddiadau hunanarfarnu rhai o'r ysgolion ymddangos yn debyg iawn, a dyna pam felly mae wedi cynnig gweithdy i roi sylw i unrhyw faterion neu bryderon ynglŷn â pharatoi adroddiadau hunanarfarnu AG.

Holodd y CYSAG faint o ysgolion oedd heb ddarparu hunanarfarniad AG. Dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd bod llawer heb wneud. Awgrymodd y Cadeirydd wrth bwysleisio'r ffaith fod yr Ymgynghorydd Her GwE ar gael i ddarparu cyngor, y dylid tynnu sylw at yr angen i'r ysgolion ddarparu eu hadroddiadau hunanarfarnu AG i'r CYSAG er mwyn iddo fedru gweithredu ei rôl fonitro.

Cytunwyd i nodi'r adroddiadau hunanarfarnu AG a gyflwynwyd.

Cam Gweithredu:

Bod y Swyddog Addysg Gynradd ynghyd â'r Ymgynghorydd Her GwE yn trefnu gweithdy i ysgolion i roi sylw i unrhyw bryderon ynglŷn â Hunanarfarnu AG ac i bwysleisio'r angen i'r ysgolion ddarparu eu hadroddiadau hunanarfarnu i'r CYSAG.

6 CYNNAL A CHODI SAFONAU TGAU

Rhoddodd Mrs Mefys Edwards gyflwyniad gyda sleids yn dangos y canlyniadau y llwyddwyd i'w cyrraedd yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch.

Adroddodd ar sut mae'r Adran AG wedi cynnal a chodi safonau yn yr ystafell ddosbarth, ac wedi ymateb i'r adroddiad hunanarfarnu am y llynedd. Cyfeiriodd at ganlyniadau'r arholiadau TGAU ar gyfer 2014/15, a nododd fod Blwyddyn 10 ac 11 wedi gwneud yn eithriadol o dda ac wedi cyrraedd eu targedau disgwylidig:-

- Blwyddyn 11 - 98% A*- C (dros hanner yn derbyn A - A*)
- Blwyddyn 10 - 91% A*- C (bron i hanner yn derbyn A - A*)

Dyweddodd Mrs Edwards wedi iddynt ddadansoddi'r canlyniadau hynny, fod yr Adran wedi penderfynu canolbwyntio ar y bechgyn trwy Gynllun Gweithredu, ac wedi ceisio eu herio trwy ganfod gwahanol ffyrdd o gadw eu diddordeb yn y cwrs. Yr ail amcan oedd cynnal a chodi safonau. Nododd ar ddechrau'r flwyddyn gyda chymorth yr anogwyr dysgu, y rhoddir prawf i'r plant i ganfod trwy ba ffyrdd y maent yn dysgu orau, ac yn ei dro mae hynny'n rhoi gwybodaeth iddi hi ynghylch sut mae'r plant yn dysgu boed hynny'n weledol, ar lafar neu trwy ddulliau cinesthetig h.y. trwy wneud pethau. Roedd yr Adran yn gobeithio gwella'r gwersi trwy gynnal gweithgareddau a fyddai'n mynd â bryd y bechgyn, a thracio'r bechgyn yn fwy cyson. Penderfynwyd hefyd ceisio gwella'r cyfathrebu gyda'r anogwyr dysgu a rhieni e.e. negeseuon testun i atgoffa rhieni am brofion fyddai'n digwydd yn fuan, a thrwy gydnabod canlyniadau da.

Adroddodd Mrs Edwards ar sut maent wedi adnabod y ffyrdd mae disgyblion yn dysgu a chyfeiriodd at ddadansoddiad o arddulliau dysgu yn ei dosbarth ym Mlwyddyn 11 fel a ganlyn:-

Mae 5 yn dysgu'n weledol;
Mae 2 yn dysgu ar lafar;
Mae 12 yn dysgu trwy ddulliau cinesthetig.

Dyweddodd Mrs Edwards fod ganddi ddiddordeb mewn treialu gweithgareddau i ddisgyblion sy'n dysgu trwy ddulliau cinesthetig ac aeth ymlaen i ymhelaethu ar rai o'r dulliau dysgu a ddefnyddir yn yr ystafell ddosbarth i gynnal diddordeb y dysgwyr hynny sy'n dysgu mwy trwy wneud yn hytrach na gwranddo e.e. trwy ddefnyddio clipiau teledu a ffilm cyfoes i annog disgyblion i ymateb ac i gyfleu eu barn ar lafar ac yn ysgrifenedig; gwneud defnydd o newyddion a digwyddiadau yn y gymuned; asesu ar gyfer dysgu lle mae'r disgyblion yn gyfrifol am asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill gan herio ei gilydd a hwy eu hunain ac ati. Cyfeiriodd at y system goleuadau traffig ar gyfer tracio cynnydd disgyblion a'r mewnbwn a wneir gan athrawon ac anogwyr dysgu ynghlŷn â'r disgyblion hynny sydd angen cefnogaeth bellach.

Dyweddodd Mrs Edwards ei bod yn hapus iawn gyda'r sgoriau AG a gafodd Ysgol Syr Thomas Jones yn arholiadau'r haf a bod Blwyddyn 10 ac 11 wedi llwyddo i gyrraedd eu targedau. Cadarnhaodd fod safonau'r bechgyn hefyd yn dda. Cadarnhaodd hefyd fod dulliau dysgu traddodiadol yn cael eu defnyddio ochr yn ochr ag arferion mwy arloesol.

Diolchodd y CYSAG i Mrs Mefys Edwards am ei chyflwyniad llawn gwybodaeth a nododd gyda diddordeb yr arferion addysgu a dysgu creadigol a ddefnyddir gan yr ysgol i wella safonau mewn AG.

7 Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn am 2014/15

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2014/15 i'r CYSAG ei ystyried a'i gymeradwyo.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Her GwE ar yr agweddau a ganlyn -

- Mae'r adroddiad yn ceisio rhoi'r cyd-destun ynghylch sut mae'r CYSAG ar Ynys Môn yn sgrwttineiddio safonau mewn AG e.e. Tudalen 4 yr Adroddiad – mae adroddiadau hunanarfarnu 8 o ysgolion wedi cael eu trafod rhwng 2014/2015. Mae cofnodion y cyfarfodydd CYSAG yn dangos bod mwy nag 8 adroddiad hunanarfarnu wedi cael eu trafod, ond mae rhai o'r rhain yn cyfeirio at ysgolion a arolygwyd yn y blynyddoedd cynt. Roedd yr 8 Adroddiad a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd hon ac mae'r rhai eraill wedi cael sylw yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

- Mae'r Awdurdod Addysg ar Ynys Môn wedi bod yn gefnogol i hunanarfarnu ac mae wedi gofyn i ysgolion hunanfarnu Addysg Grefyddol o fewn y flwyddyn ond, er gwaethaf hynny, dim ond 15% o'r ysgolion sydd wedi ymateb.

Cafwyd trafodaeth wedyn ynghylch a ddylai'r Adroddiad Blynyddol adlewyrchu'r gyfradd ymateb. Y farn gyffredinol oedd y dylid cynnwys y wybodaeth honno, er ei bod yn siomedig, ond gan dynnu sylw yn yr adroddiad ar yr un pryd at y ffaith fod y system wedi newid eleni.

Dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd y byddai'n ysgrifennu at ysgolion nad ydynt wedi ymateb o gwbl i gyfleu siom y CYSAG nad oedd eu hadroddiadau hunanarfarnu wedi cael eu cyflwyno hyd yma a'i fod yn edrych ymlaen at eu derbyn cyn gynted ag y bo modd. Ar ben hynny, mae'r Awdurdod Addysg yn annog ysgolion i fod yn "barod ar gyfer arolwg" sy'n golygu felly y dylai beth bynnag y mae ysgolion wedi ei baratoi o ran hunanarfarnu fod ar gael eisoes.

Mewn ymateb i gwestiwn am berfformiad cymharol CYSAG Ynys Môn yn hyn o beth, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod y wybodaeth yn dangos bod CYSAGau Gwynedd a Môn yn perfformio'n arbennig o dda wrth gasglu adroddiadau hunanarfarnu o gymharu ag awdurdodau eraill. Cododd y CYSAG y pwynt fod bod yn arbenigwr AG yn yn ystyriaeth o bwys yng nghyswllt yr hyn y mae athrawon yn gallu ei wneud yn y pwnc a chyfeiriwyd yn benodol at y sector cynradd lle nodwyd y gellid gwneud mwy i fynd i'r afael ag ymarfer dysgu cychwynnol ar gyfer pwnc statudol i roi i athrawon y wybodaeth gyffredinol y mae arnynt ei hangen i fynd i'r afael â'r pwnc hwn.

- O ran canlyniadau, atgoffodd yr Ymgynghorydd Her GwE y CYSAG ei fod wedi cytuno y gellid enwi ysgolion a'i bod felly wedi dewis detholiadau o adroddiadau hunanarfarnu ysgolion i ddangos y math o weithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw.
- Darpariaeth – mae'r CYSAG yn gallu adnabod darpariaeth dda o fewn y sectorau cynradd ac uwchradd tra hefyd yn nodi agweddau a fydd yn derbyn sylw yn ystod y flwyddyn i ddod. Yn ogystal, mae angen i'r CYSAG ystyried yn ei dro pa gymorth y mae'n ei ddarparu i ysgolion i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd ganddynt.
- Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion y mae rhai o aelodau'r CYSAG wedi eu mynychu a'u harsylwi.
- Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaed gan y CYSAG i'r AALI o ran cynnal a gwella safonau Addysg Grefyddol (Tudalen 8). Gofynnodd yr Ymgynghorydd Her GwE i'r CYSAG a oedd yn fodlon gyda'r argymhellion hynny.

Cafwyd trafodaeth wedyn ynghlŷn â pha fath o gefnogaeth fyddai'n cynorthwyo athrawon ac ysgolion. Nodwyd bod ysgolion bellach yn fwy ynysig o ran cefnogaeth a soniwyd am dranc y cyfarfodydd consortiwm a'r prinder cyfleoedd sydd ar gael i'r athrawon hynny sy'n dysgu'r un pwnc i gyfarfod a rhannu profiadau a datblygu syniadau. Gwnaed gwahanol awgrymiadau e.e. gallu arsylwi gwersi ei gilydd. Awgrymodd yr Ymgynghorydd Her GwE y gellid gofyn i Benaethiaid hwyluso cyfleoedd i adrannau gydweithio yn enwedig wrth baratoi manylebau TGAU a Safon Uwch newydd.

- Ymateb yr Awdurdod Addysg. (Adran 2.4) Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE bod angen i'r CYSAG arfarnu ei effeithiolrwydd ei hun fel corff o ran y cyngor a'r arweinyddiaeth y mae'n eu darparu.
- Addoli ar y Cyd (Adran 2.7). Awgrymodd yr Ymgynghorydd Her GwE y dylid cyfyngu sylwadau mewn perthynas ag addoli ar y cyd i'r adran hon a'u tynnu allan o adran 2.3.1 sy'n delio â hunanarfarniad ysgolion. Cytunodd y CYSAG a

chymeradwyodd yr argymhellion yn yr adran hon hefyd ar yr amod bod y pwynt bwled olaf yn cyfeirio at dreialu'r ffurflen addoli ar y cyd.

Cytunwyd i fabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2014/15 yn amodol ar unrhyw fân newidiadau a allai godi yn ogystal â'r newidiadau y cytunwyd arnynt yn ystod y drafodaeth arno.

Gweithredu

- **Y Swyddog Addysg Gynradd i ysgrifennu at yr ysgolion hynny nad ydynt wedi ymateb o gwbl o ran hunanarfarniadau, i gyfleu siom y CYSAG iddynt nad oedd eu hadroddiadau hunanarfarnu wedi cael eu cyflwyno hyd yma a'i fod yn edrych ymlaen at eu derbyn cyn gynted ag y bo modd.**

8 Cynllun Gweithredu'r CYSAG

Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu'r CYSAG i'w ystyried ac am sylwadau a chyfeiriwyd yn arbennig at y cynnydd a wnaed gan y CYSAG o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r canlyniadau yn y Cynllun Gweithredu. 'Roedd y CYSAG wedi arfarnu ei berfformiad fel a ganlyn:

- **Datblygu arweinyddiaeth dda mewn AG ac addoli ar y cyd**
 - Canlyniad 1 – cynnydd anfoddhaol
 - Canlyniad 2 – cynnydd da
 - Canlyniad 3 – cynnydd boddhaol
- **Cau'r bwch rhwng safonau a gyflawnir gan fechgyn a merched mewn TGAU**
 - Canlyniad 1 – cynnydd da
 - Canlyniad 2 – cynnydd da
- **Diweddarau gwybodaeth athrawon e.e. Dogfennau Canllaw Llywodraeth Cymru ac adroddiad thematig Estyn**
 - Canlyniad 1- cynnydd anfoddhaol
- **Hyrwyddo addoli ar y cyd o ansawdd da**
 - Canlyniad 1 – cynnydd da
 - Canlyniad 2 – cynnydd da
 - Canlyniad 3 – cynnydd da

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE y byddai, gyda chytundeb y CYSAG, yn cynnwys sylwadau yn yr Adroddiad Blynyddol i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed. Cytunodd y CYSAG.

DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI

9 Cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Grefyddol

Cafodd y CYSAG wybodaeth gefndirol mewn perthynas â'r ymateb i'r cyhoeddiad a wnaed gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ynghylch cynigion i ailddynodi Addysg Grefyddol yn 'Crefydd, Athroniaeth a Moeseg'.

Tynnodd y Swyddog Addysg Gynradd sylw'r CYSAG at e-bost yr oedd wedi ei dderbyn y bore hwnnw oddi wrth Ysgrifennydd Cymdeithas CYSAGau Cymru gyda chopi o ohebiaeth yr oedd wedi ei chael gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru yn egluro'r sefyllfa o safbwynt newidiadau arfaethedig i Addysg Grefyddol.

Dyweddodd yr Is-gadeirydd fod Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi cyfarfod yr wythnos flaenorol ac wedi penderfynu y dylid dosbarthu'r ohebiaeth uchod i gyfrif CYSAG. Cyfeiriodd at gyd-destun a chefnidir cyhoeddiad gwreiddiol y Gweinidog ym mis Gorffennaf a'r ymateb a gafwyd iddo. Os mai'r bwriad yw ailddynodi AG dywedodd y deallir y byddai'n rhaid gwneud hynny drwy gyfrwng deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio'r Ddeddf Addysg ac y byddai goblygiadau hefyd i'r CYSAGau. Dywedodd yr Is-gadeirydd ei bod yn anodd sgwario'r cyhoeddiad gyda'r ffaith fod y Gweinidog yn derbyn Adolygiad Donaldson sy'n gefnogol i AG. Dywedodd ei fod yn credu ei bod yn bwysig bod CYSAGau yn parhau i fod yn effro i ddatblygiadau posibl a'i fod yn sicrhau ei fod mewn sefyllfa i allu ymateb iddynt.

Dyweddodd y Cadeirydd ei fod yn fodlon y gellid gadael y mater i Gymdeithas CYSAGau Cymru yn awr a bod CYSAG Ynys Môn yn gefnogol i ymdrechion Cymdeithas CYSAGau Cymru yn hyn o beth. Cymeradwyodd y CYSAG y safbwynt hwn.

Dyweddodd yr Ymgynghorydd Her GwE ei bod yn debygol y bydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei hystyried yn rhanddeiliad lefel uchel mewn trafodaethau ar ddatblygu Adolygiad Donaldson a bod gwerth y gymdeithas yn cael ei gydnabod yn enwedig o ran ymgysylltu â'r ystod o gymunedau ffydd trwy'r cyswllt y mae'n ei ddarparu gyda CYSAGau eraill.

Awgrymwyd a chytunwyd y dylid gwneud AC Ynys Môn yn ymwybodol o safbwynt Ynys Môn ar y mater hwn.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Gweithredu:

Y Swyddog Addysg Gynradd i ysgrifennu at yr Aelod Cynulliad dros Ynys Môn i roi gwybod iddo am safbwynt CYSAG Ynys Môn ar y mater hwn.

10 Cymdeithas CYSAGau Cymru

Cylchredwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 25 Mehefin, 2015 yn Sir y Fflint yn ystod y cyfarfod a nodwyd y byddai'r fersiwn Gymraeg ar gael cyn bo hir.

Dyweddodd yr Is-gadeirydd y cynhaliwyd dau gyfarfod ar y diwrnod – y cyfarfod Cyffredinol a'r cyfarfod Blynyddol. Cyfeiriodd at y ddau gyflwyniad a wnaed yn y cyfarfod Cyffredinol – un gan Ysgrifennydd Cymdeithas CYSAGau Cymru ar ddarparu hyfforddiant mewn swydd ar addoli ar y cyd yn Wrecsam a'r llall gan Phil Lord ynglŷn â phrosiect gweithio mewn partneriaeth.

O ran y Cyfarfod Blynyddol, cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y pwyntiau canlynol:

- Dyrchafwyd Gavin Craigen i'r Gadair ond mae wedi ymddiswyddo ers hynny o'r swydd honno a disgwylir y bydd yr Is-gadeirydd sydd newydd gael ei ethol – Phil Lord – yn cael ei gadarnhau yn Gadeirydd yn y cyfarfod nesaf.
- Mae dau aelod newydd wedi cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwaith, sef y Cynghorydd Ernie Goulsworthy o Ferthyr a Ruth Davies o Wynedd.
- Rhoddwyd sylw i adroddiad y Trysorydd gyda'r argymhelliad (a dderbyniwyd) o gynnydd o 2.5% yn ffi'r tanysgrifiad blynyddol ar gyfer aelodaeth o Gymdeithas CYSAGau Cymru am 2015/16 i £433.

Cytunwyd y byddai'r CYSAG yn argymhell i'r AALI ei fod yn talu'r tanysgrifiad blynyddol o £433 i Gymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer 2015/16.

11 Canlyniadau Addysg Grefyddol 2015

Cytunwyd i ohirio ystyried y mater hwn tan y cyfarfod nesaf.

12 Cyfarfod Nesaf

Nodwyd bod cyfarfod nesaf y CYSAG wedi cael ei drefnu ar gyfer 2.00pm ar 16 Chwefror, 2016. **Cynigiodd y Cadeirydd y dylid gohirio'r cyfarfod am wythnos tan 23 Chwefror, 2016 er mwyn osgoi gwrthdaro â'r gwyliau Hanner Tymor a chytunwyd i wneud hynny.**

**Y Cynghorydd Dylan Rees
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Annwyl Mr Rhun ap Iorwerth,

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd fy swydd fel cadeirydd Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Ynys Môn. Rôl y Cyngor yw sicrhau'r safonau uchaf yn y meysydd addysg grefyddol ac addoli ar y cyd o fewn ysgolion yr Awdurdod ac fel y gwyddoch mae'n siŵr mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi lansio cynllun ar 22 Hydref ar gyfer gweithredu argymhellion y ddogfen Dyfodol Llwyddiannus gan yr Athro Graham Donaldson erbyn 2021.

Yng nghyd-destun hyn bu cryn drafodaeth dros yr haf ar ddyfodol Addysg Grefyddol o fewn y cwricwlwm newydd yn dilyn geiriau'r Gweinidog ym mis Awst. Cafwyd yr argraff bod addysg grefyddol fel pwnc unigol am gael ei uno o fewn maes astudio newydd 'Grefydd, Athroniaeth a Moeseg'. Codwyd pryder ymysg llawer yn dilyn hyn; pryder sydd wedi ei leihau yn dilyn gohebiaeth y Gweinidog gyda Cymdeithas CYSAGau Cymru ar 7 Medi. Mae'r Gweinidog yn datgan na fydd Addysg Grefyddol yn cael ei ddileu o gwricwlwm Cymru.

Trafodwyd y mater yn fanwl yn ein cyfarfod ar 6 Hydref a phwrpas y llythyr yma yw i'ch gwneud yn hollol ymwybodol o safbwynt CYSAG ar hyn, sef mae angen cadw'r maes fel maes unigol o fewn datblygiadau'r cwricwlwm a'i gadw'n ofyniad statudol ar ysgolion. Gofynnir i chwi gadw hyn mewn cof mewn unrhyw drafodaethau ar y cwricwlwm newydd o fewn y senedd dros y blynnyddoedd nesaf. Buasai colli'r ffocws ar addysg grefyddol fel maes astudiaeth penodol yn gam gwag yn addysg ein plant a phobl ifanc. Mae croeso cynnes i chwi gysylltu gyda mi am sgwrs pellach ar y mater yma.

Yn gywir,

This page is intentionally left blank

Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a))

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Môn ar Chwefror 14eg 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Manylion cyswllt:

Enw (Clerc CYSAG): Gareth Jones

Cyfeiriad: Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

Enw'r Ysgol: Penysarn

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

- Mae **bron pob disgybl** yn y cyfnod sylfaen yn gallu dwyn i gof straeon a hanesion yn **dda**.
- Mae **llawer o ddisgyblion** mwyaf abl yn B2 yn gallu trafod a holi yn **llwyddiannus**. Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion B2 yn gallu trafod geirfa ac arteffactau addysg grefyddol yn **dda** ac ychydig yn **dda iawn**.
- Mae y **rhan fwyaf** o ddisgyblion CA2 yn gallu enwi a disgrifio nodweddion rhai credoau yn **dda**.
- Mae disgyblion Bl 3 a 4 yn gallu trafod crefydd Islam a Christnogaeth yn **dda** a disgyblion Bl5 a 6 yn gallu holi ac ateb cwestiynau am Iddewiaeth yn **dda**.
- Bron yn ddieithriad mae'r plant yn gyfeillgar â'i gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.
- Maent yn cyd-dynnu'n **dda iawn** â'r athrawon ac aelodau eraill o staff.
- Mae'r disgyblion yn ymwybodol o sefyllfaoedd pobl llai ffodus na nhw eu hunain yn lleol ac yn fyd-eang ac yn ymfalchïo yn eu hymdrechion i godi arian tuag at achosion da.
- Mae'r dosbarth lau yn ymwybodol o waith elusennau trwy eu gwersi Addysg Grefyddol.

Materion i gael sylw

CS

Datblygu'r sgil o feddwl yn greadigol wrth lunio cwestiynau dynol a chrefyddol pwysig.

Adeiladu ar eu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng, teimladau, credoau a gweithredoedd.

CA2

Gwneud defnydd mwy effeithiol o ystod o ffynonellau er mwyn cyflwyno ac ategu dadleuon a barnau.

Rhagorol		Da	x	Digonol		Anfodddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	--------------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Mae'r **bron pob athro** drwy'r ysgol yn adnabod y sgiliau perthnasol ar gyfer addysg grefyddol yn **dda**.

Mae'r cynllunio **cadarn** gyda thystiolaeth dda o wahaniaethu ar gyfer galluoedd gwahanol o ddisgyblion.

Dengys fod asesiad athro B2 CS yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf rhan Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol rhan D5 a D6.

Mae angen rhoi sylw i amserlennu er mwyn sicrhau bod amser teilwng yn cael ei roi yn wythnosol ar gyfer addysg grefyddol.

Mae bron pob athro cyfnod allweddol 2 yn dilyn cynllun masnachol yn briodol. Dengys llawer o'r deilliannau yn dda ond cynnwys y cynllun masnachol a thuedd i gyfyngu'r dysgu.

Materion i gael sylw

Sicrhau fod y cynllun gwaith yn cael ei fireinio er mwyn sicrhau bod amser digonol yn cael ei glustnodi ar gyfer Addysg Grefyddol.

Rhagorol		Da	x	Digonol		Anfodddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	--------------------	--

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?

Ydy x

Nac ydy

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Polisi Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol yn weithredol ac yn cael effaith dda ar draws yr ysgol:

Datblygiad Ysbrydol a Moesol:- Cyfleoedd da i ddatblygiad ysbrydol drwy wasanaethau ac amserlennu AddGorff.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Plant yn gallu trafod credoau a lleiafrif yn gallu son am y wers foesol yn ystod gwasanaeth.

Rhagorol

Da

x

Digonol

Anfoddhaol

Llofnod: Gareth Owen (Pennaeth)

Dyddiad: 1-11-15

This page is intentionally left blank

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

CS

Mae sgiliau gwranddo bron pob un o'r disgyblion wedi datblygu'n dda ac mae'r trafodaethau yn galluogi'r mwyafrif o'r disgyblion i gynyddu eu geirfa grefyddol. Erbyn brig y CS, mae llawer o'r disgyblion yn gallu cynnig rhesymau syml dros ddigwyddiadau, sy'n seiliedig ar brofiadau crefyddol, ac yn dechrau datblygu medrau rhesymeg.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu trafod ag ymwelwyr dieithr gyda lleiafrif yn gallu cefnogi eu barn gyda safbwyntiau syml. Mae bron pob un o'r disgyblion yn parchu barn eraill a lleiafrif yn gallu dwyn i gof safbwyntiau eraill ynglŷn ag agweddau crefyddol.

Drwy ymweliadau ag addoldai lleol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gyfarwydd ag awyrgylch a naws yr adeiladau crefyddol, ac erbyn brig y CS, mae'r mwyafrif yn gallu dangos gwybodaeth elfennol ynglŷn â symbolau crefyddol.

Mae'r gwaith llafar parthed agweddau crefyddol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu llafaredd y disgyblion, er fod angen datblygu ymhellach gallu'r disgyblion i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig.

CA2

Ar waelod CA2, mae'r medrau trafod a galw i gof yn datblygu'n gynyddol gyda llawer iawn o'r disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at drafodaethau ac y mae lleiafrif yn mynegi barn yn ystyrion parthed cwestiynau crefyddol. Mae'r rhan fwyaf yn gallu trafod bywyd arweinwyr crefyddol ac yn gallu cymharu cyfraniadau unigolion allweddol e.e. Y Fam Teresa, Grace Darling a Dr Barnado.

Erbyn brig CA2, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ymwybodol o gredoau eraill, ac yn gallu gwneud cymhariaethau effeithiol rhwng Iddewiaeth a Christnogaeth. Fe fyddai cynnwys rhagor o gredoau e.e. Hindwaeth, Sikiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion i gymharu credoau, tra ar yr un pryd, yn dwyshau eu hymwybyddiaeth o ddysgeidiaeth ac arferion crefyddol byd eang.

Ar waelod CA2, mae bron pob un o'r disgyblion yn mynegi eu teimladau'n sensitif, yn gwranddo ar deimladau a dyheadau eraill ac yn barod i gydweithio ag eraill er mwyn cynorthwyo eu cyd ddisgyblion. Mae hyn yn arfer dda o fewn yr ysgol, ond byddai sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau ar draws y dosbarthiadau yn cael effaith gadarnhaol ar ethos cyffredinol yr ysgol e.e. dwyshau amgyffred a dealltwriaeth y disgyblion ynglŷn â symbolau crefyddol, ac adeiladu at allu'r disgyblion i fynegi a chefnogi eu barn grefyddol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gallu disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn gallu effeithio ar eu bywydau hwy. Mae'r eirfa grefyddol yn datblygu'n gynyddol ar draws yr ysgol gyda llawer iawn o ddisgyblion yn defnyddio'r termau cywir er mwyn cefnogi eu barn.

Ar waelod CA2, mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gallu siarad a mynegi barn yn eglur am eu profiadau eu hunain, gan ystyried "Pwy ydym ni?" ac yn dechrau dod yn ymwybodol o'u rhan o fewn cymdeithas. Mae llawer yn ymwybodol o gwestiynau sydd yn gallu codi o'r profiadau hynny ac y gallu cynnal trafodaeth syml efo chyfoedion ac oedolion. Fe fyddai medrau trafod y disgyblion yn gwella gyda rhagor o brofiadau trafod parthed y cwestiynau mawr, ac fe fyddai rhagor o ymwelwyr i'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r medrau trafod o fewn cyd destunau crefyddol.

Erbyn diwedd CA2, mae lleiafrif y disgyblion yn magu dealltwriaeth gynyddol o'r elfennau haniaethol, gan werthfawrogi fod rhai o gwestiynau mawr bywyd yn ddwys ac yn agor y drws i sawl ateb, ac ar brydiau, yn gosod sefyllfa lle nad oes atebion diriaethol.

Mae'r dystiolaeth sydd yn llyfrau'r disgyblion a chanfyddiadau monitro'r dysgu ac addysgu yn dangos fod safonau yn dda ar draws yr ysgol.

Materion i gael sylw

- Gwella gallu'r disgyblion i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig a parhau o hyrwyddo llythrennedd (ysgrifennu estynedig) ar draws yr ysgol.
- Fe fyddai cynnwys rhagor o gredoau e.e. Hindwaeth, Sikiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion i gymharu credoau, tra ar yr un pryd, yn dwyshau eu hymwybyddiaeth o ddysgeidiaeth ac arferion crefyddol byd eang.
- Fe fyddai medrau trafod y disgyblion yn gwella gyda rhagor o brofiadau trafod parthed y cwestiynau mawr, ac fe fyddai rhagor o ymwelwyr i'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r medrau trafod o fewn cyd destunau crefyddol.

Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**CS**

Mae'r athrawes Gyfnod Sylfaen yn gyfarwydd a gofynion y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yn effeithiol. Mae strwythur y cynllunio o fewn y CS yn caniatáu integreiddio agweddau o AG yn effeithiol, gan gynnwys Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad Personol a Chymdeithasol. Fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer profiadau dysgu, bydd bron pob un o'r gwersi yn cynnig cyfleoedd gwrandao a thrafod. Bydd cynlluniau'r athrawes yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau, ac yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion fynegi barn yn syml. Mae agweddau o Addysg Grefyddol yn amlwg yn y cynllunio trawsgwricwlaidd ac yn cyplysu'n effeithiol gydag agweddau o ABACh. Mae cynlluniau'r CS wedi ymgorffori'n effeithiol 'Pobl, Credoau a Chwestiynau', ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu ymwybyddiaeth y disgybl o fewn y gymuned. Fe fyddai'r agweddau hyn yn datblygu ymhellach drwy wahodd rhagor o aelodau o'r gymuned i drafod gyda'r disgyblion, mae hon yn agwedd a fyddai'n cael dylanwad gadarnhaol ar gynlluniau ysgol gyfan. Mae UDRh effeithiol o fewn yr ysgol sydd yn cynllunio'n ofalus ar gyfer dilyniant a pharhad o un adran i'r llall.

Drwy'r CS canolbwyntir ar baratoi gweithgareddau i ddatblygu medrau rhesymeg a dealltwriaeth y disgyblion parthed y byd o'u cwmpas. Rhoddir pwyslais penodol ar greu stôr o adnoddau a fydd yn hyrwyddo'r maes, gan gynnwys llyfrau storïau, llyfrau gwybodaeth, creiriau perthnasol a defnydd effeithiol o TGCh.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y CS parthed agweddau crefyddol yn dda.

CA2

Rhoddir cyfnod penodol ar gyfer Addysg Grefyddol pob wythnos (oddeutu 10 – 12 gwrs pob tymor) Mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau a chreiriau er mwyn cyflwyno agweddau penodol o gredoau eraill, a bwriedir yn fuan adeiladu ar yr arfer dda, drwy archebu rhagor o adnoddau sydd yn ymwneud a chredoau eraill e.e. Hindwaeth, Sikiaeth. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth gyffredinol ac yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion gyda phrofiadau uniongyrchol o gyffwrdd adnoddau. Mae'r UDRh yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y profiadau dysgu ac yn darparu ystod eang o brofiadau er mwyn datblygu medrau ymholi, y syniad o berthyn a chwestiynau mawr bywyd. Mae'r cynllunio bob amser yn wahaniaethol ac yn sicrhau fod bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ar eu lefelau eu hunain. Mae asesu ar gyfer dysgu yn rhan anhepgor o'r cynllunio a gwneir pob ymdrech i ddatblygu agweddau o Addysg Grefyddol fel rhan o strategaeth llythrennedd yr ysgol. Yn y cyswllt hwn, edrychir yn benodol ar wella gallu'r disgyblion i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig ac yn hyrwyddo ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol mewn cyd destun crefyddol. e.e. ysgrifennu ymson pan yn astudio bywyd Anne Frank . Bydd cynlluniau'r athrawon yn caniatáu ymweliadau allanol er mwyn cyfoethogi'r profiadau dysgu e.e. Addoldai lleol, Synagog yn Childwall, Lerpwl ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar

allu'r disgyblion i wneud cymariaethau a chodi cwestiynau perthnasol.

Materion i gael sylw

- 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' - Fe fyddai'r agweddau hyn yn datblygu ymhellach drwy wahodd rhagor o aelodau o'r gymuned i drafod gyda'r disgyblion, mae hon yn agwedd a fyddai'n cael dylanwad gadarnhaol ar gynlluniau ysgol gyfan.
- edrychir yn benodol ar ddatblygu ymhellach allu'r disgyblion i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig ac yn hyrwyddo ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol mewn cyd destun crefyddol.

Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Addoli ar y Cyd

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?	Ydy	Nac ydy
---	------------	----------------

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Bydd Gwasanaeth ar y cyd yn digwydd bedwar diwrnod yr wythnos, ac ar y pumed dydd, ceir gwasanaeth yn y dosbarth. Er fod gan rieni yr hawl i esgusodi eu plant o'r addoli, oherwydd eu cefndir crefyddol, mae'r disgyblion oll, ar hyn o bryd, yn cymryd rhan ymhob un o'r gwasanaethau. Rhoddir pwyslais penodol i greu naws ac awyrgylch addas ymhob un o'r cyfnodau "Addoli" a rhoddir cyfle i drafod agweddau moesol, ysbrydol a chred o fewn naws ac awyrgylch addolgar. Hyrwyddir y naws hwnnw drwy gynnwys cerddoriaeth amrywiol a fydd yn ychwanegu at yr ymdeimlad o gyfnod sanctaidd.

Rhoddir cyfle i bron pob un o'r disgyblion fyfyrrio, ystyried agweddau moesol a chyfrannu'n ysbrydol tuag at ysgogiad crefyddol e.e. ymateb i sgwrs gan unigolyn boed yn aelod o staff, ymwelydd neu, wrth gwrs, y disgyblion eu hunain. Mae'r UDRh yn edrych ar y posibilïadau o adeiladu ar yr arfer dda uchod drwy roi rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddarparu'n annibynnol agweddau moesol ar gyfer yr "Addoli ar y Cyd". Fe fyddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad crefyddol a moesol y disgyblion. Manteisir ar y cyfleoedd i ddatblygu agweddau o ABaCh, Dinasyddiaeth Byd Eang, Masnach Deg a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad ar y Cyd.

Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth yn gyson dda, ac edrychir yn benodol ar ddatblygu'r agweddau cadarnhaol ymhellach drwy feithrin annibyniaeth y disgyblion o fewn y gwasanaethau.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

- Mae'r UDRh yn edrych ar y posibilïadau o adeiladu ar yr arfer dda uchod drwy roi rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddarparu'n annibynnol agweddau moesol ar gyfer yr "Addoli ar y Cyd". Fe fyddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad crefyddol a moesol y disgyblion.

Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Llofnod: *C. L. Roberts* Catrin Lloyd Roberts (Pennaeth)

Dyddiad: 23/2/15

This page is intentionally left blank

Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a))

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn.

Manylion cyswllt:

Enw (Clerc CYSAG): Gareth Jones

Cyfeiriad: Adran Dysgu Gydol Oes, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

Enw'r Ysgol: YSGOL Y GRAIG, LLANGFNI

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

Y CYFNOD SYLFAEN

Gall bron pob un o'r disgyblion fynegi barn a siarad am eu profiadau a teimladau personol erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae'r mwyafrif yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.

Maent yn medru galw i gof yn dda ac yn dechrau gofyn cwestiynau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Anogir y disgyblion i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod sylfaen ac mae ychydig o ddisgyblion yn dod i ddeall fod ystyr ehangach i symbolau crefyddol.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Yng ngwaelod CA2 mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru galw i gof, ymateb a mynegi gwybodaeth syml ar rai o grefyddau'r byd a astudwyd- Bl.3- Hindwaeth a Bl. 4 –Iddewiaeth. Mae ychydig o'r disgyblion yn medru nodi'r hyn sy'n gyffredin ac yn wahanol mewn crefyddau.

Bydd Bl. 5 yn astudio'r grefydd Islam a Bl.6 yn astudio Sikhaeth, ac mae ychydig yn medru disgrifio dysgeidaethau ac arferion y crefyddau hyn. Gall rhai wneud cymariaethau rhwng credoau, dysggedaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr, ac yn nodi y gwahaniaeth a'r tebygrwydd rhwng y crefyddau.

Yng ngwaelod C.A.2 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru mynegi barn a disgrifio eu teimladau yn syml ar safbwyntiau pobl eraill gan ddechrau defnyddio geirfa grefyddol gywir. Mae'r rhan fwyaf yn cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol.

Ar frig C.A.2 mae ychydig o'r disgyblion yn medru esbonio eu teimladau, a mynegi barn eu hunan ar sut mae safbwyntiau pobl eraill yn effeithio eu bywydau nhw. Maen't yn defnyddio geirfa grefyddol yn addas.

Yng ngwaelod C.A.2 mae'r mwyafrif yn medru gofyn cwestiynau a siarad am eu profiadau eu hunan, ac ychydig yn cwestiynu am y byd o'u cwmpas a trafod cwestiynau sy'n codi o'u profiadau nhw gan gynnig eu barn eu hunan. Maen't yn dechrau sylweddoli fod crefydd yn medru cael effaith negyddol ar y byd sydd ohonni heddiw.

Ym mrig C.A.2 mae llawer o'r disgyblion yn medru trafod eu teimladau nhw am fywyd, y byd eang ac effaith crefydd ar y byd.

Mae lleiafrif yn medru mynegi a chefnogi eu sylwadau am gwestiynau sylfaenol crefyddol gan ddatgan fod crefydd yn gymhleth ac nad oes ateb pendant i lawer o'r cwestiynau.

Wrth graffu ar lyfrau'r disgyblion gwelwyd fod y safonau yn dda ar draws yr ysgol.

Materion i gael sylw

CYFNOD SYLFAEN

Parhau i gyflwyno cyfleoedd da er mwyn datblygu geirfa ac i'r disgyblion fedru mynegi barn erbyn diwedd y Cyfnod sylfaen.

Cynnig profiadau er mwyn datblygu dealltwriaeth o grefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfle i drafod cwestiynau sylfaenol, dysgu am wahanol greddoau.

Rhoi tasgau heriol i'r disgyblion MAT.

Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfoddhaol	
----------	--	----	---	---------	--	------------	--

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Y CYFNOD SYLFAEN

- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau fod y disgyblion yn cael amser penodol i'r pwnc a bod dilyniant o un dosbarth i'r llall drwy gyd drafod a chyd gynllunio.
- Mae ystod eang o brofiadau ac ymweliadau yn cael eu cynnig i'r disgyblion ac mae hyn yn aros yng nghof y disgyblion.
- Mae llawer o adnoddau addas ar gyfer y pwnc yn y Cyfnod Sylfaen yn arteffactau, llyfrau, adnoddau TGCh, llyfrau mawr, ymwelwyr y cyfan yn cyfoethogi'r ddarpariaeth dda yn y Cyfnod Sylfaen.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

- Sicrheir fod pob dosbarth yn cael awr yr wythnos yn y pwnc. Bydd hyn yn digwydd mewn sesiynnau troelli gan ddefnyddio arbenigedd aelodau staff.
- Mae pob blwyddyn yn C.A.2 yn astudio crefydd gwahanol. Bl.3- Hindwaeth. Bl.4 –Iddewiaeth. Bl.5 –Islam a Bl.6 Sikhaeth. Yma ceir cyfle i drafod gwyliau pwysig, gwisg, addoldai, arferion, cred, pobl allweddol ac yna eu cymharu â'n ffordd ni o fyw, a'r effaith mae'r credoau yn gael ar ein byd. Mae hyn yn rhoi cyfle gwych i drafod cwestiynau mawr.
Gwneir defnydd da o adnoddau TGCh i gyfoethogi a datblygu dealltwriaeth y disgyblion.
- Mae'r cynlluniau yn sicrhau dilyniant a datblygiad, gan ddatblygu sgiliau ymholi y disgyblion.
- Annogir y disgyblion i gyrraedd safonau uchel yn eu gwaith drwy osod meini prawf llwyddiant yn dily trafodaeth gyda'r disgyblion am yr hyn maen't eisiau wybod am y crefyddau a astudir.
- Mae ansawdd yr addysgu yn dda yn C.A.2

Materion i gael sylw

Y CYFNOD SYLFAEN

Parhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau i'r disgyblion.

Cario ymlaen i gyd drafod a chynllunio.

Rhannu arfer dda.

Annog sgiliau meddwl y disgyblion.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Parhau i gyd-weithio drwy ddefnyddio MPLI.

Cael cyfnod o awr yr wythnos i'r pwnc.

Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfodddhaol	
----------	--	----	---	---------	--	-------------	--

Addoli ar y Cyd

Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?	Ydy √	Nac ydy
--	-------	---------

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010), 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Cynhelir Addoliad ar y cyd (Ysgol gyfan) unwaith yr wythnos lle bydd cyfle i gyd ganu a gweddïo, canmol a gwobrwyo disgyblion drwy ddilyn cynllun SEAL. Yn ystod yr wythnos bydd adrannau C.A.2 yn cyfarfod unwaith yr wythnos a dosbarthiadau yn cynnal gwasanaeth dosbarth dair gwaith.

Yn y cyfnod Sylfaen bydd yr adran yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos ac yn cynnal gwasanaeth dosbarth ddwy waith yr

Wythnos. Bydd y disgyblion yn cael trafod gair yr wythnos (SEAL) a meddwl am ffyrdd gwahanol y gellir cyrraedd gofynion y gair. Annogir y disgyblion i edrych aragweddau moesol/ ysbrydol a chymdeithasol er mwyn hyrwyddo ethos hapus a diogel yn yr ysgol.

Bydd athro yn gyfrifol am gynnal y gwasanaeth adran a dosbarth.

Bydd holl aelodau staff yn bresenol yng Ngwasanaeth ysgol Gyfan.

Ceir cyfleoedd i ddatblygu agweddau AbaCh, dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad. Mae plant yn mwynhau y gwasanaethau.

Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd

Cryfhau'r syniad fod Gwasanaeth yn ran bwysig a defosiynol i bawb.

Cario ymlaen gyda'r arfer o gynnwys pawb yn y Gwasanaeth.

Athrawon yn cymeryd eu twrn i gynnal y gwasanaethau adran.

Rhagorol		Da	√	Digonol		Anfoddhaol	
-----------------	--	-----------	---	----------------	--	-------------------	--

Llofnod: (Pennaeth)

Dyddiad:

Canolfan Addysg Y Bont

Hunan Arfarniad: Addysg Grefyddol

Dyddiad: Tymor yr Hydref 2015

- Mae'r ysgol yn cwrdd â gofynion statudol ac yn darparu Addysg Grefyddol ag Addysg Rhyw a Pherthnasedd yn unol â pholisi'r ysgol.
- Mae'r disgyblion yn cael mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys sydd yn berthnasol i'r unigolyn, ag sydd yn rhoi sylw i ddatblygu medrau sylfaenol ac allweddol ac yn hyrwyddo datblygiad personol gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.
- Dengys canlyniadau ASDAN/Agored Cymru (ble ymgorffori'r Addysg Grefyddol) fod y disgyblion yn gwneud cynnydd da dros ystod ehangach o agweddau a chefnogi'r hyn drwy arsylwi'r disgyblion mewn ystod o sefyllfaoedd ymarferol, ac yng nghynnydd sylweddol ystod ac amrediad achrediaidau 2012-15.
- Drwy'r agenda ABACH mae'r ysgol yn sicrhau ystod o weithdai a phrosiectau ar y cyd ag asiantaethau allanol gwahanol sydd yn hybu ymwybyddiaeth grefyddol a byw yn iach. Mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i'r pwyslais ar ddulliau rhyngweithiol, heriol ac aml gelfyddydol o gyflwyno yn y mentrau yma, ac maent yn ysgogi gwaith pellach mewn pynciau megis Addysg Grefyddol, Celf, Cerdd ac Addysg Gorfforol.
- Mae'r disgyblion yn chwarae rhan flaenllaw yn ei chymuned a'i chymuned ehangach. Mae disgyblion yr ysgol a phroffil uchel, gweledol a chyson yn y dref wrth iddynt ddysgu ac atgyfnerthu ystod o sgiliau sydd yn hybu cyfathrebu, ymwybyddiaeth ac annibyniaeth.
- Yn ddiweddar mae nifer helaeth o fentrau llwyddiannus yn ymwneud a chodi arian i'r Ganolfan newydd, mae'r rhain yn ymgorffori'r gymuned a'r gymuned ehangach boed yn sefydliadau cyhoeddus, crefyddol, elusennol neu yn fusnesau a/neu ddiwydiannau lleol. Awgryma llwyddiant y mentrau yma, fod gan y gymuned argraff dda a chadarnhaol tuag at waith ag amcanion CAYB.
- Mae gan y disgyblion dealltwriaeth dda o faterion cynaliadwyaeth a dinasyddiaeth. Maent wedi ennill gwobrau a chydabyddiaeth, gan gynnwys ennill statws 'Fasnach Deg' yn 2014.
- Cyfoethogi'r profiadau dysgu disgyblion drwy ystod eang o brosiectau/mentrau/gweithgareddau ychwanegol, e.e. 'Llais Ni' (Fforwm Ieuenctid Môn), 'Agor y Llyfr', 'Campau'r Ddraig', 'Marchogaeth i'r Anabl', 'Ysgol Goedwig' a mwy. O ganlyniad i'r enghreifftiau uchod mae'r ddarpariaeth yn cynnig mwynhad ac amrywiaeth ac yn datblygu medru hanfodol ac ehangach, yn benodol gweithio o fewn tîm, parchu a rhyngweithio a chyfoedion ag oedolion/cyhoedd nad ydynt yn gyfarwydd â hwy, ac yn bwysicach, yn datblygu hyder gan oresgyn rhagfarn. Maent hefyd yn esgor at brosiectau/gweithgareddau mwy parhaol sydd yn cyfoethogi'r cwricwlwm.
- Mae ethos yr ysgol yn hyrwyddo'r cyfle i bob disgybl lwyddo yn ddiethriad. Mae'r ethos yma yn ymestyn i rieni/gwarchodwyr fel ei bod hwythau'n medru mynegi unrhyw ofnau/pryderon heb ofni unrhyw erlid. O ganlyniad i hyn mae goddefgarwch tuag at hawliau, gan gynnwys ffydd a chrefydd, yn elfen gref yng Nghanolfan Addysg Y Bont.
- Mae cyflwyniadau a gwasanaethau amrywiol yn annog disgyblion i ddod i benderfyniadau teg a goddefgar wrth ystyried amrywiaeth y gymdeithas rydyn oll yn rhan ohono.

A.Huws (Pennaeth) Hydref 2015

This page is intentionally left blank

Hunan Arfarniad Addysg Grefyddol Ysgol Gynradd Amlwch

Cwestiwn 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

Seilir yr hunan adolygiad hwn ar sesiynnau craffu ar lyfrau, trafodaeth ag athrawon a thrafod gyda digybllion.

Y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r disgyblion yn hyderus iawn wrth drafod eu teimladau ac yn medru rhesymu sut mae gweithredoedd eraill yn gallu effeithio ar deimladau unigolion.

Gall y rhan fwyaf ddeall beth yw prif negeseuon o fewn storïau crefyddol. Gyda ychydig yn medru esbonio effaith y negeseuon/gwers ar unigolion.

Mae tua hanner y disgyblion yn medru adnabod symbolau crefyddol amlwg.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol mae llawer yn medru adnabod crefyddau eraill yn llwyddiannus.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen wrth chwarae rol, maent yn medru efelychu swyddi neu gyflawniad pobl crefyddol yn hyderus.

Wrth ymdrin a gwyl crefyddol mae'r bron bob un yn medru uniaethu ac ymuno yn y dathliadau

Cyfnod Allweddol 2

Mae y rhan fwyaf o'r plant yn medru galw i gof storïau crefyddol ac y mwyafrif yn medru mynegi barn am negeseuon y storïau drwy weithgareddau amrywiol.

Gall y mwyafrif o ddisgyblion ddisgrifio a dechrau esbonio'r credoau ac arferion crefyddol eraill.

Wrth ddefnyddio termau crefyddol mae llawer ohonynt yn llwyddiannus wrth sgwrsio o fewn y cyd destun. Maent yn medru cymharu nodweddion crefyddau.

Mae plant ar draws y cyfnod yn hyderus wrth archwyllo ffynhonnellau crefyddol ac mae llawer yn medru ystyried y materion sy'n codi, dim ond ychydig o blant sydd yn gallu ategu dadleuon a barnau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol mae y rhan fwyaf yn medru nodi'r nodweddion sy'n debyg neu yn wahanol o fewn crefyddau.

Gydag annogaeth mae'r disgyblion yn defnyddio iaith grefyddol yn addas.

Mae bron bob un yn medru gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain a'r byd sydd o'u cwmpas ac yn medru trafod cwestiynau sydd yn codi o'u profiadau. Gall ychydig o ddisgyblion ar frig y cyfnod allweddol ofyn cwestiynau dwys a chymleth.

Mewn trafodaeth i ddarganfod barn plant am wersi addysg grefyddol roedd y rhan fwyaf yn mwynhau'r gwersi a'r sesiynnau creadigol a'r sesiynau gan y Bible Explorers yn rhagori.

Mae safonau a welwyd wrth edrych ar waith plant yn dangos fod y safon yn dda ar draws yr ysgol.

Materion sydd angen sylw:

Cyfnod Sylfaen:

Creu arddangosfeydd crefyddol eu naws ar furiau'r adran.

Archebu mwy o lyfrau crefyddol addas

CA2:

- Gwahodd ymwelwyr, yn cynnwys clerigwyr lleol ac arweinwyr crefyddol eraill, yn cyfrannu'n briodol gan nad ydy hyn wedi digwydd ers dwy flynedd
- Esbonio a chyfiawnhau syniadau yn fwy trylwyr yn ystod cyfnod amser cylch a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt fynegi barn ar sut mae'r hyn y maent yn ei ddysgu yn effeithio arnynt.

Cwestiwn 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

Cyfnod Sylfaen

Mae'r atharwon yn defnyddio Fframwaith y Cyfnod sylfaen i gynllunio gweithgareddau o dan y penawdau Pobl credoau a chwestiynau gan edrych ar y sgiliau sydd yn amlygu eu hunain o dan y penawdau Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad personol a Chymdeithasol lles ac Amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae'r atharwon yn cynllunio yn ofalus ac mae datblygiad amlwg o un dosbarth i'r llall. Mae cynlluniau yn rhoi ystyriaeth i weithgareddau trawsgwricwlaidd sydd yn gwneud defnydd o wahanol ardaloedd o fewn y cyfnod sylfaen e.e byd bach Stori'r Geni, chwarae rol yn Arch Noa. Bydd y plant yn cael y cyfle i ymestyn eu datblygiad moesol ac ysbrydol drwy ymateb i syniadaun chwestiynu a thrafod mewn sesiynau amser cylch wythnosol.

Gwnweir defnydd da iawn o storïau, llyfrau, offer TGCh.

CA2

Mae gwybodaeth gefndirol yr athrawon yn dda.

Addysgir Addysg grefyddol yn wythnosol o fewn y dosbarthiadau.

Mae'r cynlluniau gwaith yn ymateb i ofynion maes llafur a'r cwricwlwm addysg grefyddol.

Mae addysg grefyddol wedi ei fapio mewn cylch dwy flynedd i bob dosbarth ac yn dangos dilyniant a datblygiad o un dosbarth i'r llall gan roi ystyriaeth i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r fframwaith sgiliau.

Mae pob uned o waith yn dechrau gyda cwestiwn mawr i'w ymchwilio er mwyn datblygu sgiliau ymholi'r disgyblion.

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion weithio yn drawsgwricwlaidd gydag addysg grefyddol yn cael lle amlwg o fewn gwersi drama, celf a iaith o fewn yr adran.

Mae'r plant yn ymweld ag addoldai er mwyn cyfoethogi'r gwaith o fewn y dosbarth.

Mae'r adran yn cyfoethog o ran llyfrynau cyfeirio, arteffactau, gwersi lyfrau ac adnoddau TGCh a gwneir defnydd da ohonynt ar lawr y dosbarth.

Mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth yn dda.

Materion angen sylw

Cyfnod Sylfaen:

- Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau amrywiol a diddorol i'r plant.
- Sicrhau fod cynlluniau gwaith yn herio dealltwriaeth a rhoi cyfleoedd i esbonio

CA2:

- Sicrhau fod addysg grefyddol yn cael ei addysgu yn unol ag amserlen dosbarth.
- Cyfleoedd i ddatblygu'r ochr meddwl am effaith a chanlyniadau o fewn cynlluniau gwaith.

Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**Ydy'r addoli yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? Ydy.**

Ystyrir addoli ar y cyd yn rhan bwysig o'r diwrnod ysgol, yn blentyn ganolog, yn cydnabod natur gwahaniaethol plant ac yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned yn yr ysgol.

Y mae ein addoli ar y cyd cynhwysol:

- yn blentyn-ganolog
- yn cydnabod natur wahaniaethol y disgybl
- yn rhoi'r cyfle i ddisgybl i fod yn weithredol (naill ai'n uniongyrchol - trwy ganu emyn, trwy gydweiddio, neu drwy gynnig sylw, neu'n anuniongyrchol, trwy fyfyrion ar eu profiadau)
- yn hyrwyddo'r ymdeimlad o gymuned yn yr ysgol

Y mae ein addoli ar y cyd ysbrydol:

- yn rhoi cyfle i ymlonyddu ac i fyfyrion mewn awyrgylch o dawelwch a thangnefedd
- yn digwydd mewn awyrgylch arbennig sydd, o bosib, yn cynnwys lleoliad deniadol, cerddoriaeth gefndir neu symbol gweladwy i ganolbwyntio'r meddwl
- yn annog disgyblion i ymddwyn yn briodol wrth gyrraedd a gadael yr addoliad ac i deimlo'n gartrefol a chyfforddus
- yn annog disgyblion i fod yn ymwybodol o'r dimensiwn ysbrydol trwy gyfrwng geiriau, cerddoriaeth a delweddau
- yn darparu cyfle i'r disgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau ysbrydol megis canu, dawnsio, drama, rhannu bwyd a diod, gweddio, tawelwch a myfyrdod
- yn darparu cyfle i ddisgyblion fyfyrion unigol
- yn gyfnod wedi ei wahanu oddi wrth gyhoeddiadau'r dydd

Y mae ein addoli ar y cyd addysgol:

- wedi ei gynllunio, ei baratoi, ei gyflwyno a'i arfarnu er mwyn sicrhau profiadau safonol a pherthnasol
- yn berthnasol i waith cwricwlaid
- yn rhoi cyfle i fyfyrion ar ei phwrpas addysgol ei hun gan dathlu amrywiaeth o gyraeddiadau addysgol (nid yn unig academaidd neu o'r maes chwarae)
- yn gyfrwng i hyrwyddo amcanion addysgol yr ysgol

NODWEDDION ARFER DDA MEWN ADDOLI AR Y CYD O'R FFRAMWAITH AROLYGU

- Rhoi amser digonol i greu amgylchedd a naws o barchusrwydd tuag at gyd-ddisgyblion, oedolion ac eiddo.
- Rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyfranogi ac ymateb, naill ai drwy gymryd rhan weithredol mewn cyflwyno'r addoliad neu drwy wrando, gwyllo ac ymuno yn yr addoliad a gynigir
- Sicrhau fod addoli ar y cyd yn datblygu ysbryd cymdeithasol, yn hyrwyddo ethos a gwerthoedd cyffredin ac yn atgyfnerthu ymagweddau cadarnhaol
- Cynllunio addoli ar y cyd yn ofalus, fel arfer dros nifer o wythnosau neu dros dymor, er mwyn datblygu themâu a syniadau. Dangos cynlluniau amrywiol a chyd bwysedd addoli fel cofnod o'r gwaith a wneir.
- Gwneud defnydd effeithiol o symbyliadau priodol, yn cynnwys drama, cerddoriaeth, llenyddiaeth, arteffactau a darluniau, i ddal a chadw diddordeb a chyfranogiad y disgyblion
- Sicrhau cyfleoedd i weddio ac i fyfyrion'n dawel

Polisi Addoli ar y Cyd - Ysgol Gynradd Amlwch

Mae Ysgol Gynradd Amlwch yn ymateb i ofynion statudol Deddfau Addysg 1988 a 1993 trwy sicrhau cyfleoedd beunyddiol i ddisgyblion addoli ar y cyd.

Amcanion addoli ar y Cyd

- Cynnig cyfle i ddisgyblion addoli
- Annog y disgyblion i gymryd rhan ac i ymateb i addoliad
- Hyrwyddo datblygiad ysbrydol pob disgybl mewn ffordd sensitif a gofalus
- Datblygu ysbryd gymunedol a hybu ethos, gwerthoedd a chydgonsyrn cyffredin
- Datblygu'r ymdeimlad o werthoedd o fewn yr ysgol, y gymuned leol a'r byd eang
- Ceisio ennyn ymateb personol i gwestiynau hanfodol a thrwy hynny ddyfnhau eu hymwybyddiaeth ysbrydol
- Rhoi cyfle i ddisgyblion ymchwilio i'w safbwyntiau crefyddol eu hunain mewn perthynas ag eraill, trwy gynnig profiadau newydd iddynt
- Cyfoethogi profiadau disgyblion a'u hannog i fod yn oddefgar o safbwyntiau, credou ac arferion crefyddol.
-

Perthynas y cwricwlwm ac Addoli ar y Cyd

Hyrwyddir y berthynas rhwng addoli ar y Cyd a'r cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithiol o gerdd, drama, llenyddiaeth a chelf i greu naws ysbrydol, addolgar. Annogir y disgyblion i gymryd rhan trwy baratoi a/neu gyflwyno addoliad, neu drwy ymateb yn bersonol i'r addoliad.

Cyfrifoldeb

Y pennaeth a'r llywodraethwyr sy'n sicrhau'r ddarpariaeth yn yr ysgol. Sicrheir cyfleoedd i arweinyddion crefyddol lleol a thu hwnt ymuno yn yr addoli yn achlysurol.

Cynllunio a Chyflwyno

Cynllunir yr addoli gan Gydylynydd Addysg Grefyddol yr ysgol, mewn cydweithrediad â'r athrawon a darparydd cerddoriaeth yr ysgol. Bydd yr UDRh a'r cydlynydd yn arwain yr addoliad ar y cyd â'r pennaeth. Mae pennaeth y Cyfnod Sylfaen yn gyfrifol am y ddarpariaeth yn adran y babanod. Rhoddir sylw i wyliau a digwyddiadau crefyddol, achlysuron arbennig yng nghalendr yr ysgol ynghyd â digwyddiadau cenedlaethol a byd eang o bwys.

Addoliadau

Ceir addoliad ysgol gyfan ar ddydd Gwener sy'n cael ei gynnal gan wahanol ddsbarthiadau ac yna ar y dyddiau eraill ceir addoliad y Babanod a'r Iau ar wahan gyda'r addoliadau dan arweiniad, ac yng ngofal y prifathro, dirprwy, y pennaeth babanod a gweddi o athrawon yr ysgol (*Atodiad 11*).

Cyflwynir cerddoriaeth i'r plant wrando arno wedi iddynt ddod i'r neuadd ac wrth iddynt fynd allan. Cyflwynir amrywiaeth o gerddoriaeth yn ystod y flwyddyn ysgol i ehangu profiadau y plant (*Atodiad 5*).

Neilltuir dyddiau arbennig ar gyfer Gwasanaeth Diolchgarwch a Dydd Gwyl Dewi; bydd yr ysgol gyfan yn rhan o hyn.

Disgwylir i bob athro fod yn bresennol ar gyfer gwasanaeth y plant ar fore dydd Gwener, ar y dyddiau eraill rhyddheir athrawon o ofal dosbarth i gyflawni eu cyfrifoldeb cwricwlaidd - gweler 'Rôl Cyfunwr Cwricwlwm'. (*Atodiad 12*).

Trefn Addoliadau CA 2

Llun	-	Enwogion/ Mudiadau Elusennol Babanod-amser cylch, moesol (dosbarth)
Mawrth	-	Canu emynau /gwasanaeth Babanod-gwasanaeth CA1
Mercher	-	Moesol (Gwasanaethau dosbarth) Babanod- gwasanaethau dosbarth
Iau	-	Moesol/ Storiau o'r Beibl. Babanod- canu emynau/gwasanaeth
Gwener	-	Gwasanaeth plant - Ysgol Gyfan

Mae sawl agwedd i'n haddoliad:

Myfyrio - Annogir y plant i wrando neu fyfyrio ar ysgogiad priodol megis darlleniad o'r Beibl neu ddarn o farddoniaeth, llun, stori, cwestiwn, erthygl newyddion, fideo neu weddi.

Gweddi - Annogir y plant i weddio'n uchel gyda'i gilydd neu yn unigol yn dawel.

Canu - Annogir y plant i ymuno yn y mawl drwy ganu amrywiaeth o ganeuon addas a phriodol i'r addoliad.

Darlleniad / stori - Rhoddir cyfle i'r plant ddarllen darnau o'r Beibl neu lenyddiaeth neu i gyflwyno rhyw waith dramatig neu stori.

Rhaglen Gwasanaethau C A 2

Tymor 1

1. Enwogion / Mudiadau Elusennol.

William Morgan, Mari Jones, Griffith Jones, Florence Nightingale, William Booth, Ann Frank, 'Poppy Day', Lloyd George, 'John Lennon,

2. Storiau o'r Beibl - Stori Samiwel, Dafydd a Goliath.

a) Plant yr Hen Destament - Moses yn yr hesg, Y baban Isaac, Ruth, Joseff a'r

gôt amryliw, y Baban Ioan,

b) Duw yn anfon neges - Moses a'r berth yn llosgi, Samiwel, Galwad i eneinio Dafydd, Galw Eseia. Angylion yn hysbysu Mair o'r geni.

3. Moesol - yn ôl dewis yr athro / athrawes.

Tymor 2

1. Enwogion/Mudiadau Elusennol
Michael D Jones, 'Seiriol a Cybi, St Dwynwen, ,Martin Luther King, Dr Barnado, Leonardo da Vinci, Louis Braille, Helen Keller, Alexander Graham Bell
2. Storiâu o'r Beibl
a)Ffoi i'r Aifft, Mynd i'r Deml.
b)Y Claf o'r parlys, Atgyfodi Lasarus, Troi dwr yn win, Porthi'r pum mil, Tawelu'r storm.
c)Y Pasg - Pasg cyntaf yn yr Aifft. Saccus. Ymweld â Bethania. Gorymdaith i Jerwsalem, Y Swper Olaf, Gardd Gethsemane, Gwadiad Pedr, Gerbron Peilot, Yr Atgofodiad.
3. Moesol - yn ôl dewis yr athro / athrawes.

Tymor 3

1. Enwogion / Mudiadau Elusennol
Gandhi, MamTeresa, Nelson Mandela, Gwilym Davies (neges ewyllys da), Picasso, Christian Aid, Ty Gobaith, Dyn ar y lleuad, Neil Armstrong (dyn ar y lleuad), Bob Geldof
2. Storiâu o'r Beibl
a) Damhegion - Dameg yr Heuwr, Y Ddafad Golledig, Y Mab Afradlon, Y Samariad Trugarog, Y Gwas Anfaddeugar. Y Wledd.
b)Lledaenu'r Efengyl, Steffan, Saul ar y ffordd i Damascus, Paul a Barnabas yn Philipi, Canu yn y Carchar, Paul yn garcharor eto, Y Llongddrylliad, I'r lan yn ddiogel.

3. Moesol - yn ôl dewis yr athro / athrawes.

Trefn Addoliadau C S

Dydd Llun - Amser Cylch - Moesol

Dydd Mawrth - Gwasanaeth C A 1 (ar y cyd)

Dydd Mercher - Gwasanaeth C A 1 (ar y cyd)

Dydd Iau - Gwasanaeth yn y dosbarth

Dydd Gwener - Gwasanaeth ysgol gyfan

Cyflwynir Addoliadau i'r Babanod trwy ddefnyddio amryw o werslyfrau a storïau cyfoes a fydd yn enghreifftiau o ewyllys da.

Rhaglen Gwasanaethau y Cyfnod Sylfaen

Tymor 1

Cychwyn Newydd - plant yn dod i'r dosbarth derbyn a'r gweddill yn symud i ddosbarthiadau newydd, Ffrindiau, Gofalu, Y Beibl, Gofal yr Iesu am ei bobl, Diolchgarwch, Bod yn garedig, Stori y Samariad Trugarog, Stori'r Nadolig, Stori'r Nadolig.

Tymor 2

Y Creu, Gofalu am anifeiliaid Duw, Arch Noa, Teimpladau - Stori Joseff, Stori y Mab Afradlon, Dewi Sant, Cristnogaeth - Beth ydy Cristnogaeth?, Symbolau Cristnogaeth, Defodau - priodas/bedydd, Bywyd newydd, Stori'r Pasg - Sul y Blodau, y Swpar Olaf, NGFL - Stori'r Pasg - o'r croeshoeliad ymlaen.

Tymor 3

Stori Sant Ffransis o Asisi, Iddewiaeth, Cyd-fyw gyda'n gilydd, Stori Saceus, Stori Moses, Yr Iesu y nein harwain, Y Haf - harddwch byd Duw.

Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a))

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn.

Manylion cyswllt:

Enw (Clerc CYSAG): Gareth Jones

Cyfeiriad: Adran Dysgu Gydol Oes, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

Enw'r Ysgol: Y Ffridd Gwalchmai

Addysg Grefyddol

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

Y CYFNOD SYLFAEN

Yn ystod blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen mae mwyafrif y disgyblion yn gallu trafod a dwyn i gof wybodaeth gyflwynwyd yn ystod y gwersi. Maent yn ymholi yn synhwyrol o fewn eu gallu ar agweddau sydd o ddidordeb iddynt.

Defnyddient eirfa briodol i gyflwyno gwybodaeth am eu teimladau.

Mae'r gallu i drafod teimladau yn agored yn datblygu.

Maent yn dechrau cysylltu symbolau crefyddol a'r byd o'u cwmpas,

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Ym mlynyddoedd 3 a 4 gwyr y disgyblion yn dda am grefyddau eraill. Maent yn gallu cysylltu symbolau a chrefyddau ac yn trafod hynny yn rhwydd ac yn wybodus. Sylweddolant werthoedd crefydd i grwpiau penodol a pwysigrwydd parchu hynny yn y byd eang. O'u astudio yn fanwl sylweddolant fod tebygrwydd rhwng gwahanol gredoau.

Ym mlwyddyn 5 a 6 adeilant ar wybodaeth flaenorol gan ymestyn gwybodaeth i gynnwys disgrifiadau ac arferion o gredoau neilltuol. Gallent drafod arferion credoau a sylweddoli pa effaith gaiff crefydd ar fywydau credinwyr gan gysylltu'r credoau a'i gilydd.

Yn ystod amser cylch gall mwyafrif disgyblion gyfleu sut maent yn teimlo, mynegi barn a chynnig sylwadau syml ar syniadau plant eraill.

Ym mrig yr ysgol gall disgyblion gyfleu eu teimladau yn fwy pendant gan roi rhesymau dros eu safbwyntiau. Maent hefyd yn ymwybodol sut mae teimladau disgyblion eraill yn cael effaith ar eu bywydau hwy.

Mae'r eirfa grefyddol a gyflwynwyd ym mlwyddyn 3 a 4 yn datblygu yn dda gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6.

Gall y disgyblion drafod o fewn eu profiadau personol a mynegi barn yn eithaf rhwydd am faterion crefyddol a astudiwyd.

Materion i gael sylw

CYFNOD SYLFAEN

- Parhau i ddatblygu sgiliau cysylltu symbolau crefyddol ar byd o'u cwmpas.
- Sicrhau defnydd effeithiol o'r termau a gysylltir a chrefydd.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

- Ymestyn sgiliau trafod a dod i benderfyniad drwy fynegi barn.

Rhagorol

Da

✓

Digonol

Anfoddhaol

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i bennaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

Cyfeiriadau: Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau

Y CYFNOD SYLFAEN

- Neilltuir sesiwn ar gyfer Addysg Grefyddol yn y cyfnod sylfaen. Addysgir y maes gan athrawes CPA .
- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyflwyno Addysg Grefyddol gan adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae'r plant yn cael amrywiaeth o brofiadau sy'n rhoi cyfle iddynt wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu.
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Annogir y plant i ddysgu parchu llyfrau a gwrthrychau sanctaidd a dod yn gyfarwydd â rhai o'r hanesion ynghlwm â hwy ynghyd â dysgu am arwyddocad digwyddiadau crefyddol arbennig.

